Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cyfranwyr

Tachwedd 2018

1. Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn ymwneud â data personol yr holl Gyfranwyr at Gynnwys a Deunydd Datblygiad S4C (fel y'u diffinnir isod).

Ystyr '**Cyfranwyr**' yw:

i) **Cyfranwyr ar y sgrin** fel (a heb gyfyngiad) actorion, cerddorion, cyflwynwyr, aelodau cynulleidfa, cystadleuwyr, cyfweleion ac ati;

ii) **Cyfranwyr oddi ar y sgrin** fel (a heb gyfyngiad) ysgrifenwyr, cyfansoddwyr, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, deiliaid hawliau deunydd trydydd parti sy'n ymddangos mewn Deunydd Datblygu a Chynnwys S4C ac ati.

Ystyr '**Deunydd Datblygu**' yw deunydd a ddarparwyd i S4C drwy ei Chwmwl Cynhyrchu a all ddod yn Gynnwys S4C.

Ystyr '**Cynnwys S4C**' yw Rhaglenni S4C a chynnwys a ddarlledir ar deledu a/neu y trefnir eu bod/ei fod ar gael gan S4C ar-lein.

Yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, defnyddiwn rai diffiniadau sydd ag ystyr y rhagnodwyd iddynt gan y gyfraith. Maent fel a ganlyn:

- '**Data Personol**' sy'n golygu unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn naturiol dynodedig neu y gellir ei adnabod ('**Gwrthrych Data**');
- **'Data Categori Arbennig'** yw Data Personol sydd, yn ôl y GDPR, angen amddiffyn arbennig
- **'GDPR'** yw y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- '**Rheolwr Data**', sy'n pennu dibenion a dulliau prosesu Data Personol;
- '**Prosesydd Data**' sy'n gyfrifol am brosesu Data Personol ar ran Rheolwr Data.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut a pham y casglwn eich Data Personol ac at ba ddibenion y'i defnyddiwn, yn ychwanegol at eich hawliau fel Gwrthrych Data.

Yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn mae "**ni**" a "**ninnau**" yn golygu S4C. Pan ddarparwch eich Data Personol mewn cysylltiad â Deunydd Datblygu a Chynnwys S4C (boed yn uniongyrchol i S4C neu i gwmni cynhyrchu sy'n pasio eich manylion ymlaen i S4C), pan dderbynnir y Data Personol hwnnw, S4C yw'r Rheolwr Data ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod eich Data Personol yn cael ei gadw'n ddiogel a'i ddefnyddio'n gyfreithlon.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ac unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y gallwn ei roi i chi pan gesglir eich Data Personol, fel eich bod yn deall yn llawn sut a pham rydym yn defnyddio'ch Data Personol.

Os ydych yn rhiant/warcheidwad i gyfrannwr sy'n blentyn 13 oed neu'n iau, eglurwch iddo/iddi beth fydd yn digwydd gyda'i Ddata Personol.

Os ydych chi'n iau nag 13 oed, bydd S4C angen caniatâd eich rhiant (neu berson neu sefydliad â chyfrifoldeb rhiant) i gasglu a defnyddio'ch data. Bydd angen i ni gysylltu â'ch rhiant (neu berson neu sefydliad â chyfrifoldeb rhiant) yn uniongyrchol i sicrhau ei fod/bod yn hapus i ni gadw a defnyddio'ch data personol.

Efallai y byddwn yn diweddaru'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o dro i dro a byddwn yn rhoi unrhyw newidiadau ar ein gwefan yn www.s4c.cymru.

2. Pwy ydym ni?

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a'r unig ddarlledwr Cymraeg yn y byd. Nôd S4C yw darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngau o safon uchel yn yr iaith Gymraeg sy'n darparu adloniant, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth, ac sy'n cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl ar draws ystod o lwyfannau cyfoes.

Mae S4C yn ddarlledwr cyhoeddwr sy'n ceisio cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl trwy gynnig is-deitlau Saesneg dewisol ac, ar gyfer rhywfaint o gynnwys, trac sain dewisol Saesneg. Mae gwasanaeth teledu S4C ar gael ar Freeview ledled Cymru a hefyd ar lwyfannau Sky, Freesat, Virgin Media a YouView ledled y DU. Mae gwasanaeth ar-lein S4C ar gael ledled y DU ac, lle mae hawliau'n caniatáu, mae'r cynnwys ar gael ledled y byd. Mae cynnwys S4C hefyd ar gael ar Clic ac iPlayer ar ystod o ddyfeisiau.

Gallwch ganfod mwy am S4C yma.

3. Pa Ddata Personol ydyn ni'n ei brosesu amdanoch?

Gall y Data Personol a brosesir gan S4C gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

- Enw
- Cyfeiriad
- Asiant/Cynrychiolydd
- Rhif Ffôn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Dyddiad Geni
- E-bost
- Manylion Banc
- Llun neu debygrwydd
- Llais

Gall y Data Categori Arbennig a brosesir gan S4C gynnwys:

- Hil neu ethnigrwydd
- Barnau gwleidyddol
- Credoau crefyddol
- Aelodaeth o Undeb Llafur
- Iechyd corfforol ac iechyd meddwl
- Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol
- Data genetig a biometrig
- Troseddau (gwirioneddol neu honedig).

4. Sut ydym ni'n casglu eich Data Personol?

Mae Data Personol sy'n ymwneud â chyfranwyr yn cael ei darparu'n bennaf i S4C gan y Cwmni Cynhyrchu/Trwyddedwr sydd dan gontract gan S4C mewn perthynas â'r Deunydd Datblygu a/neu Gynnwys S4C. Yn fwyaf aml, darperir y wybodaeth hon i S4C yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

i) mewn cyfathrebiadau cyffredinol gydag S4C wrth drafod Deunydd Datblygu a/neu Gynnwys S4C;
ii) fel rhan o'r gwaith papur a gyflwynir i S4C ac yn ymwneud â chynnwys S4C a/neu Ddeunydd Datblygu (e.e. ffurflen ganiatâd, contract); neu
iii) wedi'i fewnbynnu gan y Cwmni Cynhyrchu i system ar-lein S4C i greu rhestr y cast yn ymwneud â'r Deunydd Datblygu a/neu Gynnwys S4C; neu
iv) wedi'i darparu i S4C gan Gwmni Cynhyrchu fel y gall S4C fewnbynnu'r manylion perthnasol i'w system ar-lein; neu
v) wedi'i chyflwyno i S4C fel rhan o Gynnwys S4C (cyfraniad ar y sgrin).

Fel arall, gall Data Personol gael ei ddarparu'n uniongyrchol i S4C gennych chi (neu eich rhiant/gwarcheidwad). Er enghraifft, gallwch ddarparu Data Personol tra'ch bod chi'n cysylltu gyda'n hadran gyfrifon, neu pan fyddwch yn delio gyda'n Tîm Cyfathrebiadau neu ein Tîm Hyrwyddo mewn perthynas â gwaith hyrwyddo.

5. Beth sy'n rhoi hawl i S4C brosesu eich Data Personol a Data Categori Arbennig (beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu)?

Bydd S4C ond yn defnyddio'ch Data Personol pan fydd ganddi reswm dilys dros wneud hynny (gelwir yn sail gyfreithlon ar gyfer prosesu). Bydd S4C ond yn prosesu eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract**

  Byddwn yn prosesu eich Data Personol pan fydd y prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract gydag S4C yr ydych chi'n barti iddo. Mae S4C yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i brosesu eich Data Personol er mwyn iddi allu bodloni'r rhwymedigaethau contractiol rhwng S4C a chi. Gallai'r cyfryw brosesu fod at ddibenion megis gwneud taliadau i chi, delio â materion rheoli hawliau a/neu gysylltu â chi ynglŷn â'ch cyflogi neu'ch cytundebu.

- **Prosesu fel rhan o gyflawni tasg er budd y cyhoedd**

  O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, swyddogaeth gyfreithiol Awdurdod S4C yw darparu gwasanaeth rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael i'w derbyn yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru. Gall Awdurdod S4C wneud unrhyw beth hefyd sy'n ymddangos iddi ei fod yn ddigwyddol neu'n ffafriol i gyflawni ei swyddogaeth gyfreithiol.

  Byddwn yn cyhoeddi (a/neu yn achos Deunydd Datblygu, yn ystyried p'un ai cyhoeddi) eich cyfraniad newyddiadurol, artistig a/neu lenyddol at Gynnwys S4C fel rhan o gyflawni tasg a bennwyd i S4C gan y gyfraith ac fel y cyfryw, y mae er budd y cyhoedd.

- **Mae'r prosesu er buddiant dilys S4C**

Bydd S4C yn prosesu eich Data Personol at ddibenion sy'n dod o fewn ei fuddiant dilys ac eithrio lle mae eich buddiannau chi a'ch hawliau a'ch rhyddidau sylfaenol chi yn drech na'r cyfryw fuddiant dilys.

Isod rydym wedi amlinellu (yn rhan 6 y ddogfen hon) at ba ddibenion y byddwn yn prosesu eich Data Personol. Nid ydym o'r farn fod buddiant dilys S4C fel y'i nodwyd yn Adran 6 yn cael ei drechu gan eich buddiannau chi a'ch hawliau a'ch rhyddidau sylfaenol chi.

- **I gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol**

Bydd S4C yn prosesu eich Data Personol lle mae'r cyfryw brosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol a bennwyd i S4C e.e. cyfreithiau darlledu a chydraddoldeb; adrodd i CThEM.

Data Categori Arbennig

Mae Data Categori Arbennig yn fwy sensitif o ran ei natur, ac fel y cyfryw, mae'n mynnu mwy o ddiogelwch. Fel y cyfryw, yn ogystal â chael hawl gyfreithiol ar gyfer prosesu Data Categori Arbennig, rhaid i S4C fodloni amod ychwanegol hefyd a bennwyd gan y gyfraith o dan Erthygl 9 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

- **Buddiant Cyhoeddus Sylweddol**

Fel arfer byddwn ond yn prosesu Data Categori Arbennig lle bo'n angenrheidiol i ni wneud hynny am resymau buddiant cyhoeddus sylweddol, lle mae'n gymesur i wneud hynny, a lle bo'n addas a lle ceir mesurau penodol ar waith i ddiogelu'ch hawliau a'ch buddiannau sylfaenol. Nodwch, lle'r ydym yn dibynnu ar fuddiant cyhoeddus sylweddol, gallwn, lle bo'n briodol, gyhoeddi'ch cyfraniad heb eich caniatâd.

6. At ba ddibenion fydd S4C yn prosesu eich data?

Bydd S4C yn prosesu'r Data Personol at y dibenion canlynol:

i. i wneud penderfyniadau comisiynu a golygyddol mewn perthynas â Deunydd Datblygu a Chynnwys S4C;
ii. i greu'r contractau angenrheidiol a dogfennau eraill mewn perthynas â chynnwys S4C;
iii. i asesu, gwneud penderfyniadau ynghylch a rheoli materion cydymffurfio yn gysylltiedig â Chynnwys S4C;
iv. i gyhoeddi'ch cyfraniad (e.e. trwy ddarlledu, gweddarllediad, neu drefnu ei fod ar gael i'w dderbyn gan wylwyr ar alw);
v. i hwyluso ailddarlledu Cynnwys S4C a gwneud taliadau ailddangos/codi taliadau ffioedd mewn perthynas â nhw;
vi. i fanteisio'n fasnachol ar Gynnwys S4C;
vii. i hwyluso defnyddio clipiau/detholiadau o Gynnwys S4C (boed gan S4C neu drydydd partïon) a gwneud y taliadau perthnasol mewn perthynas â hynny;
viii. i baratoi a chyflwyno adroddiadau i undebau a/neu gymdeithasau casglu fel DPUK, MCPS, PRS, PPL ac EMI;
ix. i greu a chyhoeddi rhagluniau sy'n hyrwyddo Cynnwys S4C neu ddangos riliau sy'n hyrwyddo S4C fel sefydliad;
x. i hyrwyddo Cynnwys S4C a/neu S4C fel sefydliad a allai, yn nodweddiadol, gynnwys S4C yn cysylltu ag aelod o'r cast am gyfweliadau ar gyfer datganiadau i'r wasg neu aelodau'r cast yn cael eu gwahodd i fynychu sgriniad neu ddigwyddiad S4C;
xi. i gynorthwyo wrth ddelio â chwynion;
xii. i gydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio e.e. archwilio; cyfrifyddu/treth; darlledu;

xiii. i gydymffurfio â rheoleiddwyr fel OFCOM a'r ICO;
xiv. i gael tystiolaeth gan gynghorwyr proffesiynol S4C;
xv. i greu deunydd hygyrchedd i gyd-fynd â Chynnwys S4C h.y. isdeitlo/sain-ddisgrifio/deunydd arwyddo;
xvi. i fonitro a gwarchod ein systemau cyfathrebu a TG;
xvii. i gydymffurfio â thelerau unrhyw gystadleuaeth y cymeroch ran ynddi fel rhan o'ch cyfraniad at Gynnwys S4C;
xviii. i gydymffurfio â'r gyfraith.

7. Â phwy arall fydd S4C yn rhannu eich data?

Ni fydd S4C yn gwerthu eich data i unrhyw un arall.

Efallai y byddwn yn defnyddio darparwyr gwasanaeth trydydd parti i gefnogi ein darpariaeth o'r gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau busnes, yn cynnwys cefnogaeth TG, gwasanaethau cynnal data ar lwyfannau cwmwl, cyfreithiol, cyfrifyddu, archwilio, ymgynghori â darparwyr gwasanaethau proffesiynol eraill, a darparwyr gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'n busnes.

Bydd gennym gytundeb yn ei le gyda'n darparwyr gwasanaeth a fydd yn cyfyngu ar sut y gallant brosesu eich data personol. Os yw unrhyw ddarparwr gwasanaeth wedi'i leoli y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, byddwn yn sicrhau bod y darparwr naill ai'n danysgrifiwr cyfredol i Ddiogelydd Preifatrwydd yr UE / yr Unol Daleithiau, neu fod gennym gontract priodol gyda nhw ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn rhyngwladol.

Ac eithrio'r uchod, byddwn ond yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon lle mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny, pan fydd angen i ni eich gwarchod chi neu bobl eraill rhag niwed, neu lle bo'n angenrheidiol i atal twyll neu droseddau eraill.

8. Beth yw fy hawliau gwrthrych data a sut gallaf eu defnyddio?

O dan gyfraith diogelu data, yn dibynnu ar y sail gyfreithiol y mae S4C yn dibynnu arni i ddefnyddio'ch data, mae gennych nifer o wahanol hawliau. Nodir crynodeb o'r hawliau hynny a'n rhwymedigaethau ni isod. Mae rhagor o ddata am eich hawliau a'n rhwymedigaethau ni i'w gweld ar wefan yr ICO https://ico.org.uk/.

Gallwch:

- wneud cais am fynediad at eich data personol (a elwir yn gyffredin yn "cais am fynediad gan wrthrych y data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon. Efallai y bydd gofyn i chi anfon prawf hunaniaeth atom.
- wneud cais i gywiro'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch.

- dynnu caniatâd yn ôl pan fyddwn yn prosesu eich data personol dim ond ar y sail eich bod wedi dweud wrthym eich bod am i ni wneud hynny. Gallwch dynnu caniatâd yn ôl drwy anfon neges e-bost i data@s4c.cymru. Sylwer ar gynnwys adran 5 yr hysbysiad hwn mewn perthynas â'n hawl ni i brosesu eich data heb eich caniatâd.
- wneud cais i ddileu eich data personol. Byddwn yn cydymffurfio â'r cais hwn:
    - os nad oes angen y data personol mwyach at y diben y gwnaethom gasglu neu brosesu'r data yn wreiddiol;
    - os ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel yr unig sail ar gyfer cadw'r data, ac rydych chi'n tynnu'ch caniatâd yn ôl;
    - os nad oes unrhyw fuddiant dilys tra phwysig i barhau â'r prosesu hwn;
    - os rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol ac rydych chi'n gwrthwynebu i'r prosesu hwnnw;
    - os yw eich data personol wedi'i brosesu'n anghyfreithlon; neu
    - os oes rhaid i ni wneud hynny i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

- wrthwynebu prosesu eich data personol lle'r ydym yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu rai trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa chi sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu prosesu ar y sail hon. Byddwn yn cydymffurfio â'r cais hwn oni bai bod gennym reswm cyfreithiol i barhau i brosesu'r data. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- wneud cais i gyfyngu prosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu data personol amdanoch chi, er enghraifft os ydych chi am i ni sefydlu ei gywirdeb neu'r rheswm dros ei brosesu.
- wneud cais i gludo eich data personol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych yr hawl i ofyn i ni ddarparu copi electronig o'ch data personol i chi naill ai ar gyfer eich defnydd eich hun neu fel y gallwch ei rannu â sefydliad arall. Os yw'r hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn i ni, lle bo'n ymarferol, drosglwyddo eich data personol yn uniongyrchol i'r parti arall.
- wneud cwynion ynghylch sut yr ydym yn defnyddio eich data personol. Os dymunwch wneud hynny, cysylltwch â ni ar data@s4c.cymru neu fel arall fel yr amlinellwyd yn ein gweithdrefn gŵynion. Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Data (ICO), sef awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data. Ewch i wefan ICO am gyfarwyddiadau.

9. Am ba hyd y bydd S4C yn cadw data amdanaf?

Bydd S4C ond yn cadw'ch data am y cyfnod:

* sydd ei angen at y dibenion y casglwyd y data; a/neu

* a fynnir gan y gyfraith

Bydd eich data yn cael ei ddileu yn ddiogel wedyn.

10. Rhyddid gwybodaeth a'ch data chi

Mae S4C yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw ddata a gedwir gennym, a allai gynnwys unrhyw ddata a ddarparwyd i ni gennych, gael ei datgelu o bosibl os gwneir cais Rhyddid Gwybodaeth, oni bai bod gan S4C reswm cyfreithiol dros beidio datgelu'r cyfryw ddata.

11. Cysylltu

Mae gan S4C Swyddog Diogelu Data. Anfonwch yr holl sylwadau, ymholiadau neu geisiadau mewn perthynas â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn a/neu'r ffordd rydym yn rheoli eich data personol i data@s4c.cymru.

Fel arall, gallwch anfon llythyr at Swyddog Diogelu Data S4C, S4C, Canolfan S4C yr Egin, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ.

S4C 2018